Fforwm Mynediad Lleol Wrecsam

Adroddiad blynyddol ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2006

Adroddiad y Cadeirydd
Rwy'n ffermio cig eidion, defaid, grawnfwydydd a chnydau gwreiddlysiau ac mae fy fferm yn rhan o gynllun amgylcheddol Tir Gofal. Rwyf wedi bod yn gadeirydd i Fforwm Mynediad Lleol Wrecsam ers ei sefydliad ac roeddwn wrth fy modd yn cael parhau yn y rôl hon am dair blynedd arall.

Mae'r fforwm wedi gwneud cynnydd cyson yn y tair blynedd gyntaf ac wedi cyfrannu'n sylweddol at gyflwyno tir mynediad yn llwyddiannus a helpu i sicrhau bod yr awdurdod lleol wedi symud y cynllun gwella hawliau tramwy yn ei flaen.

Rwyf wedi derbyn cymorth fy nghydweithwyr ar y fforwm a hoffwn fynegi fy niolch iddynt am eu hymdrechion. Edrychaf ymlaen at barhau â'r cynnydd hwn gydag aelodau newydd y fforwm a fydd yn gallu ychwanegu eu gwybodaeth, profiad ac arbenigedd er mwyn sicrhau bod y fforwm yn bodloni ei ddyletswydd statudol fel corff ymgynghorol i Gyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam.

Cynllun Gwaith ar gyfer y Flwyddyn i Ddod
Yn ystod y flwyddyn nesaf, mae'r Fforwm Mynediad Lleol yn disgwyl archwilio, ystyried a gwneud argymhellion i Gyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam yn y meysydd canlynol:

Cynlluniau gwella hawliau tramwy
Creu cofrestrau
Mapiau swyddogol
Gorchmynion diwygio mapiau swyddogol
Mynediad a ganiateir i Ystad Wynnstay
Arwyddion a marcio ffyrdd
Defnyddio cerbydau modur yng nghefn gwlad
Ceisiadau cynllunio
Cŵn a materion cadwraeth

Cyflwyniad
Sefydlwyd Fforwm Mynediad Lleol Wrecsam ym mis Tachwedd 2002. Mae aelodau'n aros ar y fforwm am dair blynedd a newidiodd yr aelodaeth trwy weithdrefn ymgeisio a dewis yn 2005 gyda'r fforwm newydd yn dechrau gweithredu ym mis Tachwedd 2005.

Roedd Deddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000 yn gofyn i'r awdurdod lleol greu fforwm mynediad lleol hefyd. Swyddogaeth y fforwm yw cynghori'r awdurdod, Cyngor Cefn Gwlad Cymru ac eraill o ran gwella mynediad y cyhoedd i dir yn sir Wrecsam at ddibenion hamdden awyr agored a mwynhau'r ardal. Fodd bynnag, rhaid gwneud hyn gan ystyried anghenion rheoli tir a phrydferthwch naturiol yr ardal. Mae holl gyfarfodydd y fforwm yn agored i'r cyhoedd.

Adroddiad Blynyddol
Yn ystod 2005 gofynnodd y Cyngor am geisiadau gan aelodau o'r cyhoedd i'w penodi i'r Fforwm Mynediad Lleol. Penodwyd yr aelodau hyn gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam ym mis Tachwedd 2005 i greu cydbwysedd o bobl â buddiant sy'n defnyddio cefn gwlad. Mae'r strwythur newydd yn cadw 8 aelod o'r fforwm gwreiddiol, ynghyd â 7 aelod newydd. Ym mis Chwefror 2006, etholodd y fforwm Ieuan Lewis i barhau fel cadeirydd a Clive Menzies fel is-gadeirydd. Mae'r adroddiad hwn yn ceisio rhoi crynodeb bras o waith y fforwm. Cyhoeddir cofnodion y fforwm ar wefan Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam neu gallwch eu darllen yn Neuadd y Dref yn ystod oriau swyddfa arferol.

Y FLWYDDYN DAN AROLWG

Tir Mynediad
Yn ystod y flwyddyn, ni fu raid i'r Fforwm roi cyngor penodol am fynediad i dir agored gan na dderbyniwyd ceisiadau am eithriadau na chaeadau tu hwnt i'r terfyn statudol.

Yn gyffredinol, teimlwyd bod cyflwyniad tir mynediad wedi bod yn llwyddiannus. Mae'r fforwm wedi ceisio cynyddu nifer yr arwyddion a mynedfeydd i dir mynediad ac mae ganddo berthynas dda gyda'r ceidwaid mynediad. Mae wedi ceisio sicrhau arwyddion digonol ar hawliau tramwy i'r cyhoedd ar dir mynediad hefyd (manylir ar hyn yng nghofnodion 08/4/05, 10/06/05 a 03/02/06).

Ystad Wynnstay
Mae'r fforwm wedi ceisio gohebu gydag Ystad Wynnstay gyda'r nod o'i pherswadio i arolygu'r system drwydded £10 am fynediad (manylir ar hyn yng nghofnodion 08.4.05, 10.06.05, 02.09.05, 25.11.05).

Cerbydau Modur yn ein Cefn Gwlad
Manylir ar hyn yng nghofnodion 08/04/05, 10/06/05, 25/11/05 a 03/02/06).

Gyrru Anghyfreithlon i Ffwrdd o'r Ffordd
Trafodwyd y pwnc o yrru anghyfreithlon i ffwrdd o'r ffordd. Derbyniodd y fforwm gyflwyniad gan Heddlu Gogledd Cymru a esboniodd nad oedd ganddynt lawer o adnoddau i daclo'r mater. Fodd bynnag, derbyniodd y fforwm ymroddiad y byddai'r heddlu'n gweithredu ar unrhyw wybodaeth a dderbyniwyd. Mae'r fforwm yn annog y cyhoedd i gofnodi manylion megis rhifau cofrestru cerbydau a rhoi'r rhain i'r heddlu.

Anogodd y fforwm Gyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam i edrych ar greu mannau lle gallai pobl yrru i ffwrdd o'r ffordd mewn amgylchedd diogel. Ceisiodd y fforwm sicrhau bod y Cyngor yn derbyn papur ymgynghorol Llywodraeth Cynulliad Cymru (25/11/05).

Roedd y fforwm yn falch o glywed am ymdrechion gwirfoddolwyr a oedd yn trwsio traciau. Mae'r fforwm wedi gofyn i Gyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam ganiatáu grwpiau gwirfoddol i helpu i gynnal a chadw ffyrdd cyhoeddus eraill hefyd. Mae maen prawf yn bodoli nawr i gyrff gwirfoddol gymryd rhan fel y manylir yn yr ohebiaeth a gyflwynwyd i'r fforwm ar 03/02/06. Soniodd Tim Stevens ei fod yn fodlon gweithredu fel cydlynydd i'r gwirfoddolwyr.

Gorchmynion Diwygio Mapiau Swyddogol
Mynegodd y fforwm bryderon am y cynnydd yn y rhestr o ddiwygiadau dros ben i'r map swyddogol ac roedd am wybod pam nad oedd uwch reolwyr wedi gwneud unrhyw beth i gynyddu'r adnoddau sydd ar gael i ddatrys y mater. Roedd cymaint o bryder ynghylch hyn y bu i'r fforwm gofnodi y byddai cynnydd yn cael ei arolygu'n flynyddol (manylir ar hyn yng nghofnodion 10/06/05).

Gwaith Gosod Gwael gan Groundwork
Nododd y fforwm nad oedd sawl clwyd ar ffyrdd a llwybrau ceffyl ar y llwybrau marchogaeth ceffylau wedi eu gosod yn gywir a chynghorwyd y Cyngor y dylid gofyn i Groundwork ailwneud y gwaith yn iawn (manylir ar hyn yng nghofnodion 10/06/05).

Toiledau Cyhoeddus yn Llanarmon
Ceisiodd y fforwm sicrhau bod y toiledau hyn yn aros ar agor dros y gaeaf. Cytunodd y Cyngor i hyn yn y pen draw (manylir ar hyn yng nghofnodion 10/06/05).

Cynllun Gwella Hawliau Tramwy
Roedd y fforwm yn poeni am gynnydd y cynllun gwella hawliau tramwy ar ddechrau'r flwyddyn ac anogodd y Cyngor i ddarparu adnoddau i gyflawni'r nod hwn. Mae'r fforwm wedi cyfranogi'n llawn yn y cyfnod ymgynghori ac mae'n cael gwybod am ei gynnydd ym mhob cyfarfod. Fodd bynnag, mae'r fforwm yn credu y dylai fod wedi cael mwy o fewnbwn a mynegwyd pryderon am y fethodoleg a ddefnyddiwyd i gael y samplau ar hap ynghyd â'r mater o lwybrau ffiniau traws-gwlad. Gofynnodd y fforwm am gael aelodau ar y panel archwilio ond cynghorwyd ef mai dim ond aelodau etholedig y Cyngor a'r Bwrdd Gweithredol a allai fod ar y panel. Roedd yn siomedig na wahoddwyd aelodau o'r fforwm, fel corff ymgynghorol, i fynd fel gwylwyr. Mae'r fforwm yn falch o'r cynnydd sy'n cael ei wneud dan arweiniad Martin Howarth ac mae'n awyddus i weld yr adroddiad drafft (manylir ar hyn yng nghofnodion 08/04/05, 10/06/05, 02/09/05, 25/11/05).

Ffyrdd Coll
Gofynnodd y fforwm am gynnydd y prosiect Ffyrdd Coll ac roedd yn siomedig clywed am y diffyg cynnydd (manylir ar hyn yng nghofnodion 08/04/05).

Cyllidebu
Mae'r fforwm yn poeni nad yw'r cyllidebau ar gyfer gwaith hawliau tramwy'n cael eu clustnodi ar gyfer y gwaith hwn yn benodol. Ysgrifennodd y fforwm at Lywodraeth Cynulliad Cymru i ofyn am ddiogelwch cyllidebol er mwyn gwella hawliau tramwy. Holwyd cynrychiolydd Cyngor Cefn Gwlad Cymru a ddywedodd fod yr arian yn cael ei adneuo ac y dylai'r fforwm drafod y mater gydag aelodau etholedig (manylir ar hyn yng nghofnodion 10/06/05 a 03/02/06).